



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o gyfarfod Pwyllgor
Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru
a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021, 13:00
Capital Quarter – drwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Dyfed Edwards	(DE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl (gadawodd am 14:00)
Hefyd yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth Archwilio Mewnol, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
Angela Fisher	(AF)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Jason Garcia	(JG)	Archwilio Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Lucy Jugessur	(LJ)	Rheolwr Archwilio, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd
Ramin Khan	(RK)	Archwilio Cymru
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol
Nigel Price	(NP)	Atal Twyll
Kevin Seward	(CA)	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru – Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd (gadawodd am 13:40)
Rob Tovey	(RT)	Cydweithrediad GIG Cymru
Verity Winn	(VW)	Archwilio Cymru
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Fforwm Partneriaeth y Staff (ymunodd am 14:00)
Ymddiheuriadau:		

Alison Ward	(AW)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Craig Greenstock	(CG)	Rheolwr Atal Twyll
Andrew Cottom	(AC)	Ymgynghorydd Annibynnol

ACGC 127/2021 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Agorodd DE y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig o ganlyniad i'r ymateb parhaus i COVID-19 a'r canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol.

Dywedodd y Cadeirydd, yn dilyn trafodaeth â chydweithwyr, fod agenda'r cyfarfod wedi'i diwygio i alluogi'r Pwyllgor i ganolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth, a bod nifer o eitemau wedi symud i adran nodiadau'r agenda. Cyfeiriodd DE at e-bost a anfonwyd at aelodau'r Pwyllgor yn eu hysbysu am hyn ymlaen llaw, gyda chyfle i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar unrhyw un o'r papurau hyn.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

ACGC 128/2021 Datganiadau o Fuddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

ACGC 129/2021 Eitemau er Sicrwydd
129.1/2021 Y Gwasanaeth Archwilio Allanol

Rhoddodd VW ddiweddariad ar lafar i'r Pwyllgor am weithgaredd Archwilio perthnasol, gan gynnwys:

- Roedd adran Gweithredu a Chynllunio adroddiad Asesu Strwythuredig 2021 wedi'i chwblhau. Roedd y ddwy adran arall i'w cwblhau ar wahân eleni; roedd gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau'r gwaith cynllunio ar gyfer y rhain. Cafwyd adborth cychwynnol a oedd yn nodi ei fod yn adroddiad cadarnhaol ar y cyfan.
- Cyhoeddwyd adroddiad (Cymru gyfan) Archwilio Cymru ar y gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu a oedd yn nodi bod y rhaglen genedlaethol wedi dod â gwahanol rannau o sector cyhoeddus Cymru, ac asiantaethau eraill, ynghyd yn llwyddiannus i greu system brofi ac olrhain cysylltiadau yn gyflym o'r dechrau'n deg i raddau helaeth ac ar raddfa na welwyd ei thebyg o'r blaen. Amlygodd yr adroddiad nifer o heriau a chyfleoedd allweddol wrth i'r gwasanaeth Profi, Orlhain, Diogelu barhau drwy gydol 2021.
Byddai'r adroddiad yn cael ei gylchredeg i'r Pwyllgor er gwybodaeth.

Camau gweithredu: LB

Diolchodd y Cadeirydd i VW am y diweddariad.

129.2/2021 Y Gwasanaeth Archwilio Mewnol**129.2.1/2021 Adroddiad Cynnydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol (cyf 3.2.1 ACGC.180321).

Tynnodd PD sylw at y canlynol:

- Roedd adroddiad Archwilio mewnol Cronfa Risg Cymru bellach wedi'i gwblhau, ac roedd yn rhan o agenda'r Pwyllgor heddiw (gweler 129.2.2/2021 o'r cofnodion hyn);
- Adroddiad ymgynghorol oedd yr Adolygiad Cydweithredol o Drefniadau Rheoli a Llywodraethu; roedd wrthi'n cael ei gwblhau.

Diolchodd y Cadeirydd i PD am y diweddariad.

129.2.2/2021 Adroddiadau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad terfynol y gwasanaeth archwilio mewnol ar Gronfa Risg Cymru (Cyf 3.3.2a ACGC.180321), a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol, gyda dim argymhellion ar gyfer gwella.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad terfynol y gwasanaeth archwilio mewnol ar Ansawdd a Chywirdeb Data o fewn perfformiad (Cyf 3.3.2b ACGC.180321), a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol, gyda dau argymhelliad blaenoriaeth isel.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad terfynol y gwasanaeth archwilio mewnol ar systemau ariannol (Cyf 3.3.2c ACGC.180321), a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol gyda dau argymhelliad blaenoriaeth ganolig a dau argymhelliad blaenoriaeth isel. Nododd AG y byddai un o'r argymhellion canolig yn cael ei gau heddiw, ar yr amod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Weithdrefn Rheoli Ariannol ar gyfer Asedau Sefydlog (gweler 131.5/2021 o'r cofnodion hyn).

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad terfynol archwilio mewnol ar brosesu gwybodaeth o dan Adran 251 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (Cyf 3.3.2d ACGC.180321), a gafodd sgôr sicrwydd sylweddol gydag un argymhelliad blaenoriaeth ganolig.

Mynegodd y Pwyllgor ei ddiolch i'r Tîm Archwilio Mewnol, ac i'r timau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n ymwneud â'r Archwiliadau hyn, gan ganmol y sefydliad am y pedwar adroddiad sicrwydd sylweddol a gafwyd mewn ystod o feysydd a thimau ar draws y sefydliad.

Nododd DE bwysigrwydd gwella a dysgu o bob adolygiad, er mwyn parhau i ddatblygu fel sefydliad.

129.3/2021 Adroddiad ar Gynnydd o ran Atal Twyll

Derbyniodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Gynnydd o ran Atal Twyll (Cyf 3.3 ACGC.180321). Tynnodd NP sylw at y canlynol:

- Ymarfer rhagweithiol i adolygu gwybodaeth cyflogaeth i nodi unrhyw gydbertynas â chyflogwyr eraill;
- Roedd sesiynau ymwybyddiaeth o dwyll yn parhau, a datblygwyd sesiwn ymwybyddiaeth ar-lein; roedd nifer ac ystod eang o dimau o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sicrhau lle ar gyfer y sesiwn hon. Nodwyd hefyd bod yr hyfforddiant hwn wedi'i deilwra i ofynion penodol y sefydliad.
- Roedd diffyg o ran nifer y dyddiau eleni (65 wedi'u cwblhau o gymharu â'r 100 a gynlluniwyd). Mae gweithgaredd diweddar yn awgrymu bod atgyfeiriadau bellach yn dechrau cynyddu i lefel cyn COVID.

Gofynnodd MM am ragor o sicrwydd na fu cynnydd o ran risg a grëwyd o ganlyniad i'r ffocws sefydliadol ar COVID. Rhoddodd NP sicrwydd i'r Pwyllgor nad oedd risg cynyddol i'w adrodd, hyd y gwyddai; bu pryder cynyddol ar lefel Cymru gyfan, a oedd yn cael ei reoli, o ran twyll caffael yn ymwneud â chynhyrchion a anfonebwyd yn erbyn cynhyrchion a ddarparwyd ond nid oedd hyn wedi bodoli yn Iechyd Cyhoeddus Cymru

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a chymerodd **sicrwydd** o ran y trefniadau atal twyll sydd ar waith.

129.4/2021 Adroddiad ar Berfformiad Ariannol

Rhoddodd AF arddangosiad i'r Pwyllgor o elfennau cyllid y Dangosfwrdd Sicrwydd Perfformiad.

Nododd HG fod adroddiad ariannol llawn yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd ar 25 Mawrth 2021, yn yr un modd ag yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ar 25 Chwefror 2021. Nododd HG fod gwaith ar y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar y trywydd iawn i sicrhau bod y sefydliad yn adennill costau.

Nododd y Pwyllgor y diweddariad, ac y byddai adroddiad llawn yn cael ei ddarparu i'r Bwrdd yr wythnos nesaf.

129.5/2021 Colledion a Thaliadau Arbennig

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig (Cyf 3.5 ACGC.180321).

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi'u gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

129.6/2021 Adroddiad Caffael

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad Caffael (Cyf 3.6 ACGC.180321).

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** fod gweithgaredd caffael wedi'i gynnal yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

129.7/2021 Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru: Datganiad Sicrwydd Blynyddol

Derbyniodd y Pwyllgor Ddatganiad Sicrwydd Blynyddol Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru (cyf 3.8 ACGC.180321).

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o'r adroddiad bod y cydweithrediad wedi cydymffurfio â'r trefniadau lletya.

129.7/2021 Cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Gydymffurfio â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol (Cyf 3.9 ACGC.180321), gan nodi bod yr hunanasesiad yn dangos cydymffurfiad â phob un o'r egwyddorion yn y cod.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** o ran cydymffurfio â Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer 2017.

ACGC 130/2021 Eitemau i'w Hargymell i'r Bwrdd**130.1/2021 Adolygiad Blynyddol o Reolau Sefydlog**

Derbyniodd y Pwyllgor yr adolygiad o Reolau Sefydlog (Cyf 4.1 ACGC180321). Nododd HB mai adolygiad dros dro oedd hwn i addasu'r diwygiadau dros dro i Reolau Sefydlog a wnaed ym mis Mawrth 2020, a oedd i fod i ddod i ben ar 31 Mawrth 2021.

- **Nododd** y Pwyllgor y bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal yn unol ag adolygiad Llywodraeth Cymru o Reolau Sefydlog Enghreifftiol, a ragwelir yn hanner cyntaf 2021/22;
- **Argymhelodd** y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i'r Bwrdd i'w cymeradwyo.

123.2/2021 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor

Rhoddodd LB adroddiad Blynyddol drafft i'r Pwyllgor ar gyfer 2020/21 (Cyf 4.2 ACGC.180321), a oedd yn crynhoi gweithgaredd y Pwyllgor eleni. Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ran effeithiolrwydd y Pwyllgor wrth arfer ei rôl a'i gyloch gwaith.

Byddai'r adroddiad yn cael ei gwblhau i gynnwys eitemau o'r cyfarfod heddiw, a byddai'r geiriad terfynol yn cael ei gymeradwyo gan y Cadeirydd i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnwys fel crynodeb cywir o'r gwaith a gyflawnwyd, a **chytunwyd** bod y Cadeirydd yn cymeradwyo'r ddogfen derfynol cyn ei chyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai 2021.

ACGC 131/2021 Eitemau i'w Cymeradwyo

ACGC 131.1/2021 Cofnodion, Cofnod o'r Camau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod blaenorol (19 Ionawr 2021)

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cofnodion (cyf 5.1 ACGC.180321) a **nodwyd** y diweddariadau i'r cofnod o gamau gweithredu.

131.2/2021 Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Allanol 2021/22

Cyflwynodd VW yr adroddiad i'w gymeradwyo (cyf 5.2 ACGC.180321) gan grynhoi'r gweithgaredd archwilio a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn 2021/22. Amlygodd VW fod ffioedd Archwilio Cymru i'r sefydliad am waith archwilio ariannol wedi cynyddu ychydig o flynyddoedd blaenorol.

Gwnaeth JG y sylwadau canlynol:

- Amcangyfrif oedd ffioedd Archwilio Cymru, fel y bu erioed: nid oes hawl gan Archwilio Cymru i wneud elw, dim ond adennill costau, felly pe bai'r Archwiliadau'n cael eu cyflawni am lai o gost, byddai'n ofynnol i Archwilio Cymru ad-dalu unrhyw ordaliad.
- Roedd cyd-destun 2019/20 wedi'i gwneud yn ofynnol i Archwilio Cymru ddatblygu ffyrdd newydd o weithio; bu hyn yn llwyddiant, fodd bynnag roedd wedi golygu ei bod yn cymryd ychydig yn rhagor o amser i gwblhau'r gwaith, ac roedd hyn wedi cynyddu'r gost.
- Roedd y gwaith i Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 2019/20 wedi bod yn fwy na'r amcangyfrif: roedd yr Archwilydd Cyffredinol o'r farn nad oedd unrhyw fai ar neb am y gost uwch i'r sefydliad;
- Roedd effaith COVID-19 wedi cynyddu lefelau trafodion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sylweddol; roedd gwariant wedi cynyddu yn ogystal â'r trafodion; a bellach roedd lefel uwch o stoc yn cael ei gadw. Effaith gronnus hyn oedd bod angen cynyddu'r gwaith archwilio i gwmpasu'r gwaith ehnagach hwn er mwyn darparu barn archwilio gywir.

Diolchodd DE i VW a JG am y diweddariad, gan nodi'r angen i gydbwysu'r gwaith archwilio pwysig â lefel risg y sefydliad. Cydnabu JG hyn, ac amlinellodd fod lefel y risg wedi'i hystyried wrth bennu lefel y samplau a ddewiswyd.

Nododd HG fod y cynnydd mewn ffioedd yn sylweddol o ran canran. Cwestiynodd HG sut roedd diwylliant gwella a llai o risg fel sefydliad yn cael ei adlewyrchu, o ystyried y canfyddiadau cadarnhaol yn yr Asesiadau Strwythuredig a gwaith arall y gwasanaeth archwilio allanol am nifer o flynyddoedd. Awgrymodd fod hyn yn dangos bod Iechyd Cyhoeddus yn sefydliad risg isel, ond nid oedd yn glir sut roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y Cynllun Archwilio.

Derbyniodd y Pwyllgor y sefyllfa a'r rhesymau a amlinellwyd am y cynnydd mewn costau ar gyfer 2021/22. Nodwyd mai amcangyfrif oedd hwn, ac y byddai

gwaith yn mynd rhagddo â chydweithwyr yn Archwilio Cymru i gadw costau mor isel â phosibl drwy gydol y flwyddyn.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Allanol ar gyfer 2021/22.

131.3/2021 Cynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol 2021/22 (Cyf 5.3 ACGC.180321). Pwysleisiodd PD y byddai'r cynllun yn parhau i fod yn hyblyg ac yn cael ei addasu yn ôl yr angen. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd angen y nifer arferol o adroddiadau gorfodol eleni; fodd bynnag roedd y mwyafrif wedi'u cynnwys yn y cynllun gwaith gan y cytunwyd â'r sefydliad mai'r arfer gorau fyddai cynnwys y rhain.

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22.

131.4/2021 Cynllun Gwaith Atal Twyll 2021/22

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith Atal Twyll 2021/22 (Cyf 5.4 ACGC.180321). Nododd NP fod y fformat wedi'i ddiwygio yn unol â'r templed cenedlaethol, ond bod y cynnwys ar yr un sail ag y bu mewn blynyddoedd blaenorol.

Gofynnodd DC a fyddai'r dyddiau a glustnodwyd yn ddigonol pe bai cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau. Rhoddodd NP sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai nifer y dyddiau'n ddigonol ar gyfer y lefelau disgwylidig, a phe bai hyn yn cynyddu a bod angen cynyddu'r oriau, byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynllun Gwaith Atal Twyll ar gyfer 2021/22.

131.5/2021 Cofrestr Risgiau Strategol - Risg 4

Derbyniodd y Pwyllgor y diweddariad o'r Gofrestr Risgiau Strategol (Cyf 5.5 ACGC.180321), a oedd yn amlinellu'r newyddion diweddaraf am y cynnydd o ran y camau gweithredu yn y Gofrestr Risgiau Strategol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol (Risg 4).

- **Cymeradwyodd** y Pwyllgor y penderfyniad i gau'r camau a amlinellir yn nhabl 2 yr adroddiad;
- **Cymeradwyodd** y Pwyllgor y newidiadau i'r dyddiadau cau a amlinellir yn nhabl 1 yr adroddiad.

131.5/2021 Gweithdrefn Rheoli Ariannol Asedau Sefydlog

Derbyniodd y Pwyllgor y Weithdrefn Rheoli Ariannol Asedau Sefydlog (Cyf 5.6 ACGC.180321).

Cymeradwydd y Pwyllgor y Weithdrefn Rheoli Ariannol Asedau Sefydlog.**ACGC 132/2020 Eitemau i'w Trafod****132.1/2021 Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor a'r Rhaglen Waith Flynyddol**

Rhoddodd LB gyflwyniad i'r Pwyllgor yn crynhoi canlyniad arolwg ar-lein diweddar o aelodau'r Pwyllgor a'r rhai oedd yn mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Cwmpas yr arolwg oedd cael adborth gan y grŵp ar feysydd allweddol o gyloch gwaith y Pwyllgor, ansawdd yr adroddiadau ac unrhyw feysydd i wella arnynt.

I grynhoi, cafwyd yr adborth canlynol:

- Roedd y trefniadua llywodraethu Cyffyrddiad Cywir, a'r dull o ailstrwythuro/aiffocysu'r agenda wedi gweithio'n dda;
- Roedd adroddiadau craffu manwl yn ddefnyddiol ac yn ychwanegu gwerth - yn enwedig o ran Seiberddiogelwch;
- Roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn annog ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau gan bawb, gyda dull cynhwysol, ac roedd diwylliant o her adeiladol yn amlwg mewn cyfarfodydd;
- Roedd angen eglurhad pellach o ran Rôl y Pwyllgor mewn perthynas â sicrwydd ynghylch gwaith archwilio clinigol, ac roedd angen diffinio'r gorgyffwrdd â gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn well;
- Ystyried cynnwys yng nghynllun gwaith y flwyddyn adroddiadau craffu manwl ar Risg; Atal Twyll, ac Effeithlonrwydd Ariannol/gwerth am arian.
- Roedd meysydd a amlygwyd ar gyfer rhagor o hyfforddiant a datblygiad/cymorth i gyflawni eu cyfrifoldebau yn cynnwys rheoli risg a chraffu ar adroddiadau ariannol;
- O ystyried pa mor gyflym mae seiberddiogelwch yn newid, roedd angen sicrhau bod y Pwyllgor yn monitro hyn yn barhaus.

Roedd y Pwyllgor yn **cefnogi'r** camau gweithredu arfaethedig yn y cyflwyniad, a nodwyd y byddai'r themâu a'r camau gweithredu yn cael eu hadrodd fel rhan o'r Adolygiad cyffredinol o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Bwrdd yn y Bwrdd yn chwarter 1 2021/22.

ACGC 133/2021 Eitemau i'w Nodi**133.1/2021 Cynllun Archwilio Ansawdd a Gwaith Clinigol 2019/20**

Nododd y Pwyllgor Gynllun Archwilio Ansawdd a Gwaith Clinigol 2020/21 (Cyf 7.1 ACGC.180321).

133.2/2021 Hunanasesiad Ansawdd a Llywodraethu

Nododd y Pwyllgor yr Hunanasesiad Ansawdd a Llywodraethu (Cyf 7.2 ACGC.180321).

133.3/2021	Diweddariad Polisi
Nododd y Pwyllgor y diweddariad Polisi (Cyf 7.3 ACGC.180321).	
133.4/2021	Diweddariad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol
Nododd y Pwyllgor y Diweddariad ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Cyf 7.4 ACGC.180321).	
133.5/2021	Rhagolwg y Pwyllgor
Nododd y Pwyllgor Ragolwg y Pwyllgor (Cyf 7.5 ACGC.180321).	
133.6/2021	Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gylchredeg y tu allan i'r Pwyllgor a'i adrodd i'r cyfarfod nesaf.	
133.7/2021	Cynllun Gweithredu ar Danseilio Diogelwch Data
Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei gylchredeg y tu allan i'r Pwyllgor a'i adrodd i'r cyfarfod nesaf.	
133.8/2021	Fframwaith Cydweithio
Nododd y Pwyllgor y newyddion diweddaraf am y Fframwaith Cydweithio (Cyf 7.8 ACGC.180321).	
133.9/2021	Adroddiad Archwilio Cymru ar Seibergadernid
Nododd y Pwyllgor Adroddiad Cyfrinachol Archwilio Cymru ar Seibergadernid (Cyf 8 ACGC.180321).	
ACGC 126/2021	Materion Gweinyddol i Gloi
126.1/2021	Unrhyw Fater Arall
Dim.	
126.2/2021	Cyhoeddi Papurau
Cymeradwydd y Pwyllgor gyhoeddi'r papurau ar unwaith, ac eithrio'r canlynol oherwydd eu bod yn cynnwys data neu wybodaeth sensitif: <ul style="list-style-type: none"> • Caffael • Colledion a Thaliadau Arbennig; • Risg Strategol 4 Seiberddiogelwch; • Cynllun gweithredu ar Danseilio Diogelwch Data (adroddiad yn cael ei gylchredeg ar wahân). 	
126.3/2021	Adborth y Pwyllgor
Rhoddodd y Pwyllgor adborth cadarnhaol ynglŷn ag arolwg effeithiolrwydd y Pwyllgor, a'r ymateb o ran y camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.	
126.4/2021	Dyddiad y cyfarfod nesaf

5 Mai 2021 am 12:30

Daeth y cyfarfod i ben am 15:45